UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

Categorïau cofrestru newydd ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

ebost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **17 Chwefror 2023** i:

Tîm Llywodraethu a Deddfwriaeth
Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: YmgynghoriadCGA.WG44232@llyw.cymru

Cwestiwn 1 – A ydych chi'n cytuno bod y Gorchymyn drafft yn adlewyrchu'r categorïau cofrestru ychwanegol arfaethedig ar gyfer ysgolion annibynnol yn gywir?

Ydw	✓	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	☐

Sylwadau ategol

Ymddengys fod pethau'n cael eu cysoni, fel bod yr un gofynion ar gyfer athrawon sy'n dysgu mewn ysgolion gwladol a'r sawl sy'n gweithio mewn ysgolion preifat. Drwy sicrhau yr un gofynion, byddai'n creu system decach.
Mae'r pedwar pwynt bwled ym mharagraff 20 yn cyfeirio at y prif swyddi sy'n cyfateb i swyddi mewn ysgolion gwladol. Fodd bynnag, mae swyddi eraill o fewn ysgolion annibynnol, yn enwedig rhai preswyl, lle mae unigolion yn treulio llawer o amser yng nghwmni plant ac yn ymwneud yn gyson a nhw. Mae angen sicrhau bod pobl mewn swyddi o'r fath yn gorfod cofrestru. Mae'r rhestr ym mharagraff 21 yn nodi 'nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr' – mae'n bwysig ei bod yn cynnwys unigolion sy'n treulio amser gyda phlant. Beth am 'riant tŷ' nad yw'n addysgu? Oni ddylai unigolyn mewn swydd o'r fath gael ei gynnwys yn y rhestr? Tybed a yw'r pwynt bwled 'cyflawni'r uwch-rôl arwain o ran rheoli'r ysgol' yn ei gwneud yn ddigon clir bod disgwyl i bob Pennaeth gofrestru. Buasem yn hoffi gweld y gair 'Pennaeth' 'Prifathro/Prifathrawes' yn cael ei nodi yma.

Cwestiwn 2 – A ydych chi'n cytuno bod y Gorchymyn drafft yn cadarnhau'r gofyniad i bob pennaeth mewn ysgolion a gynhelir gofrestru?

Ydw	✓	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	☐

Sylwadau ategol

Er bod pob pennaeth mewn ysgolion a gynhelir yn cofrestru ar hyn o bryd, mae'n bwysig bod yn rhagweithiol a chau'r bwlch presennol sy'n ei gwneud hi'n bosibl i benaethiaid beidio â chofrestru.

Cwestiwn 3 – A ydych chi'n cytuno bod y Gorchymyn drafft yn adlewyrchu'r diwygiadau arfaethedig ar gyfer y sector gwaith ieuenctid yn gywir?

Ydw	✓	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	☐

Sylwadau ategol

Mae'r diwygiadau arfaethedig i'r Gorchymyn yn nodi'n glir bellach pwy o fewn y sector gwaith ieuenctid fydd yn gorfod cofrestru.

Cwestiwn 4 – A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau a wnaed i Atodlenni 1 a 2 i Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016 yn cyflwyno rhestr gywir o gymwysterau gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid (gan gynnwys cymwysterau cyfatebol ledled y DU a chymwysterau hanesyddol perthnasol)?

Ydw	☐	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	✓

Sylwadau ategol

Cwestiwn 5 – A ydych chi'n cytuno bod y Gorchymyn drafft yn adlewyrchu'r categorïau cofrestru newydd arfaethedig ar gyfer Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol yn gywir?

Ydw	☐	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	✓

Sylwadau ategol

Cwestiwn 6 – A ydych chi'n cytuno â'r strwythur ffioedd a chymhorthdal arfaethedig ar gyfer y categorïau cofrestru newydd arfaethedig?

Ydw	✓	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	☐

Sylwadau ategol

Ymddengys fod y strwythur yn dangos tegwch i unigolion o fewn sefydliadau o fathau gwahanol. Nid ydym o'r farn y dylai athrawon mewn ysgolion annibynnol dderbyn cymhorthdal.

Cwestiwn 7 – A ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad o effeithiau posibl y categorïau cofrestru newydd arfaethedig?

Ydw	☐	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	✓

Sylwadau ategol

Mae'n anodd rhagweld ar hyn o bryd beth fydd yr effeithiau. Gan fod ysgolion annibynnol yn cynnwys nifer fawr o swyddi nad ydynt yn bodoli mewn ysgolion gwladol, mae'n anodd gwybod a yw'r holl swyddi hyn wedi'u cynnwys yn y Gorchmynion.

Cwestiwn 8 – A ydych chi'n meddwl bod unrhyw newidiadau eraill i'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â chofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg y dylid eu hystyried?

Ydw	☐	Nac ydw	☐	Ddim yn gwybod	✓

Sylwadau ategol

Cwestiwn 9 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai ein cynigion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau y byddent yn eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Ni allaf weld pa effeithiau uniongyrchol y byddai'r cynigion arfaethedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg.

Cwestiwn 10 – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 11 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch ddefnyddio'r blwch isod i wneud hynny:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐